Cylch Meithrin Nefyn

COFNODION CCB PWYLLGOR Y CYLCH MEITHRIN COMMITTEE AGM
01/03/2022 – 6:00 – Tafarn yr Heliwr, Nefyn

Yn Bresenol
Rhian Parry Rhian Jones Nia Ynyr Dwynwen Morus Hughes Natalie Roberts Karen Hughes
Bethan Williams Gwenno Rice TYH

1. **Ymddiheuriadau / *Apologies***
   Nodwyd ymddiheuriadau gan Ffion Wynne Edwards a Buddug Hughes Mudiad Meithrin

2. **Datgan Buddiant / *Declaration of Interest***
   Dim

3. **Cofnodion / *Minuites***
   Derbyn cofnodion 10/08/2021 heb newidiadau

4. **Unrhyw Fater Brys / *Any Urgent Business***
   Nodwyd mater brys;
   - **Argraffydd** – Mae angen pwrcasu argraffydd pwrpasol i'r Cylch. Nodwyd y bydd eisiau trefnu pwrcasu inc yn uniongyrchol o'r argraffydd. Mae arian grant ar gael i hyn ond bydd eisiau ei wario cyn diwedd y mis. Mae'r pwyllgor yn cytuno.

   - **Ffon symudol** – Mae angen cytundeb ffon symudol Newydd, mae staff y Cylch am edrych am gytundeb cyn gynted â phosib, mae'r pwyllgor yn cytuno. Mae Rhian Parry am roi ffon i'r Cylch.

   - **Cloch drws** – Cytunwyd i bwrcasu cloch drws cyn gynted â phosib

   - **CCTV** - Mae'r problemau fandaleiddio yn dal i barhau yn y man chwarae allanol Newydd. Mae'r Arweinyddes wedi cael arweiniad gan arbenigwyr sydd yn hapus i helpu gosod camerâu yn yr ardal. Rydym wedi derbyn rhodd o £100 gan Michael Brady a £100 gan Bleddyn Evans sydd yn gyfraniad gwerthfawr iawn i'r achos. Mawr ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu a helpu yn y broses ac rydym yn gobeithio bydd yn weithredol cyn gynted â phosib.

   - **Cabinet ffeilio** – Mae cabinet wedi eu pwrcasu gan Viking Direct, ond nid yw wedi ei dderbyn fel cytunwyd. Mae Graen a Gwneud Llanaelhaearn yn cynnig cabinet ail law fel rhodd i'r Cylch. Cytunwyd i dderbyn y rhodd a mawr ddiolch.

5. **Y Pwyllgor / *The Committee***
   Mae llythyr pwrpasol wedi ei lunio i wahodd aelodau Newydd i'r pwyllgor. Bydd y llythyr yn cael ei rhannu i holl rieni / warchodwyr yn y cylch yn ogystal â'r rhoi ar ei'n dudalennau Facebook.

   Mae aelodau'r pwyllgor wedi cytuno i dderbyn rôl angenrheidiol o fewn y Cylch 2022-23.
   Cadeirydd – Rhian Jones
   Ysgrifenyddes – Ffion Wyn Edwards
   Trysorydd – Nia Ynyr
   Person Cyfrifol – Rhian Parry

6. **Dyfodol Ti a Fi yn Nefyn / Ti a Fi's Future in Nefyn**

Mae Cylch Ti a Fi'n lle gwych i rieni neu warchodwyr gwrdd i chwarae gyda'u plant ac i gymdeithasu dros baned, mae'r gwasanaeth yn hanfodol i rieni / gwarchodwyr Newydd.
Mae £1427.53 cyfrif Ti a Fi gyda HSBC. Mae HSBC yn cymryd ffi o'r arian yma yn fisol.
Tafarn yr heliwr yn cynnig gofod i ail ddechrau Ti a Fi yn Nefyn. Mae TYH yn barod i gymryd drosodd y gwaith o redeg yr elusen yn ogystal ag agor cyfrif banc Newydd yn Lloyds TSB sydd ddim yn codi ffi ar elusennau.
Nodwyd bod grant o £1000 o bunnoedd yn ogystal â hyd at 6 sesiwn gyda Swyddog Mudiad Meithrin i ail ddechrau Ti a Fi. Yn sgil hyn mae Rhian E Jones yn cynnig ac Nia Ynnyr yn eilio ac mae'r holl sydd yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus yn cytuno i drosglwyddo'r arian sydd yn cyfrif banc Ti a Fi i'r Cylch meithrin. Maent hefyd yn cytuno i'r Cylch Meithrin rhoi'r holl adnoddau i Dafarn yr Heliwr fel rhodd i gychwyn Ti a Fi.
Mae Gwenno Rice yn awyddus i ddechrau'r broses gan fod ei swydd hi yn do di ben diwedd mis Mawrth a bydd angen rhywun i orchwylio'r gwaith.
Mae'r Pwyllgor yn awyddus i cadw cysylltiad clos rhwng Ti a Fi a'r Cylch.

7. **Grantiau & Hel Arian / *Grants and Fundraising***

Cawsom ddiweddariad gan yr Adweinyddes Dwynwen Hughes ar waith sydd wedi ei gynnal yn y Cylch. Nodwyd bod cryn dipyn o waith eto yw gwneud yn yr ardal chwarae allanol yn unol â gofynion y cwricwlwm Newydd, bydd eisiau edrych am arian i wened y gwaith yma.
Mantell Gwynedd £3000 (2020-21) Mae nifer o bethau wedi eu derbyn yn unol â grant Mantell Gwynedd ond yn anffodus nid oedd yn bosib derbyn yr holl bethau gan Cosy Direct er eu bod wedi eu pwrcasu ers misoedd. Mae'r gweddill bellach wedi eu canslo.
Cyngor Gwynedd - Mae gwaith wedi ei gwblhau ar y gegin a'r lloriau newydd wedi eu gosod yn y caban yn unol â grant derbyniwyd gan Gyngor Gwynedd.
Mae grant o £175.00 am argraffydd a blwch 4G ar gael ac eisiau ei wario cyn diwedd y mis.

Trosolwg

Amazon - £18.14
Bleddyn Evans - £100.00
Michael Brady - £100.00
Cronfa Paul Lloyd - £300
Taith gerdded - £319.7
Asda - £200
Pwyllgor Foel Gerniog - £50
Cyngor Gwynedd Digidol – £175.00

Syniadau hel arian

- Holi busnesau lleol am rhodd i raffl.
- Taith gerdded hefo'r plant.
- Chwilio am grantiau.
- Ffair haf.
- Creu crefft gyda'r plant yw werthu.
- Enwi'r Tegan.
- Cyfle i fusnesau lleol noddi'r Cylch.
- Noson i rhieni e.e. Body Shop

8. **Meithrin a Mwy**

Cafwyd diweddariad o'r Cylch ar ei newydd wedd 2021-22 gan Dwynwen Morus Hughes, nodwyd bod nifer fawr o welliannau wedi eu cwblhau yn y caban a'r man chwarae allanol.
Yn unol â'r cwricwlwm Newydd a chynllunio yn y foment mae'r adeilad wedi ei newid yn gyfan gwbl. Mae yna dipyn o waith yw gwneud eto i ddatblygu'r man chwarae allanol.
Mae 10 o'r plant sydd yn mynd dosbarth meithrin yr ysgol yn mynychu Clwb Cinio a Meithrin Mwy yn y prynhawn. Mae'r niferoedd Clych yn y bore yn llawn.
Mae'r Cylch yn gwneud gwahaniaeth positif iawn i'r ysgol.
Mae'r Cylch yn cefnogi Cylch Meithrin Morfa Nefyn fel y maent yn paratoi i ail agor. Mae arweinydd a chymhorthydd Morfa Nefyn wedi gofyn am ganiatâd i gysgodi yn Cylch Nefyn ac mae'r pwyllgor yn gefnogol iawn i hyn. Mae'r arweinyddes am drefnu dyddiad iddynt ddod i'r Cylch.
Mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gryn dipyn o waith ychwanegol wedi ei gwblhau megis Safle chwarae allanol, adnewyddu'r caban yn ogystal â darparu safon uchel o ofal ac addysg i'r holl blant – Diolch yn fawr iawn i chi.

9. **Glanhau / *Cleaning***

Diweddariad ar sefyllfa glanhau'r caban; nid oes unrhyw cymorth glanhau i'r Cylch gan yr ysgol. Mae'n glanhau'r toiledau a chasglu ysbwriel yn unig. Mae'r pwyllgor yn bryderus bod yr ysgol yn talu am wneud y gwaith glanhau. Mae Rhian Jones am ddilyn i fynnu hefo'r ysgol i gadarnhau'r sefyllfa.
Mae'r Cylch yn parhau i dalu 30 munud y diwrnod yr un yn ychwanegol i'r holl staff i lanhau.

10. **Covid-19**

Dim Diweddariad – parhau i ddilyn rheoliadau fel y maent yn newid
Ni does bellach angen masg i ddod ar iard yr ysgol.

11. **Mudiad Meithrin**

Wedi cael ein dewis yn un o'r 50 o Gylchoedd Meithrin i dderbyn Coeden Afal Gymreig i nodi pen-blwydd Mudiad Meithrin yn 50 eleni.
Mae'r ysgol wedi cynnig un gwelu garddio yn yr ardd Newydd i'r Cylch, gobeithio gellir plannu'r coeden afalau ynddo cyn gynted a phosib.

12. **Cyfrifon**

Arian wedi ei dderbyn / *Payments Received*	
Taliadau Plant / *Child Payments*	£ 11,619.96
Grantiau / *Grants*	£ 3000
Rhoddion / *Gifts*	£ 2228.04
Cyngor Gwynedd Council	£ 18,076.17
Arall / *Other*	£ 450.00
Cyfanswm:	**£ 35,374.77**
Taliadau wedi eu gwneud / *Payments Made*	

Hyfforddiant / *Training*		£ 250.00
Offer / *Equipment*		£ 2045.69
Staffio / *Staffing*		£ 26,768.02
Cefnogol / *Administrative*		£ 145.48
Eraill / *Other*		£ 1,720.18
	Cyfanswm:	**£ 30,929.37**
Balans yn y Banc / *Bank Balance*		
01/04/2021	23/02/2022	
£8,305.56	£12,928.70	

Mae'r cyfrifon ychydig yn gamarweiniol o'r gwir sefyllfa; mae arian gran wedi ei dderbyn ond nid yw wedi ei wario bellach. Hefyd nid yw cyflogau wedi mynd allan o'r cyfrif eto ychwaith.
Arian i fynd allan:

Cyflogau: £3034.63
Taliadau: £3245.00 (amcangyfrif)

Gwir balans diwedd mis Chwefror fel amcangyfrif: £6649.07

13. Eitemau yw rhoi ar yr agenda nesaf / *Items for the next Agenda*

Diogelu (Safeguarding) – dylid fod ar agenda pob pwyllgor.
Codi ffioedd

14. Diolch / *Thanks*

Diolch i oll aelodau'r pwyllgor am eu cymorth dros y flwyddyn ac yn arbennig i'r staff am eu gwaith caled.
Mae'r staff yn ddiolchgar iawn ac yn awyddus i holi am godiad cyflog. Nodwyd y pwyllgor bod y staff yn gweithio yn galed iawn ac nad yw'r cyflog presennol yn gystadleuol. Cynigwyd Rhian E Jones a Nia Ynyr yn eilio i roi codiad cyflog cystadleuol yw penderfynu ar ôl cael gwybodaeth / canllaw gan Mudiad Meithrin. Bydd Rhian Parry yn cysylltu gyda Buddug Hughes i drafod a dod yn ôl at y pwyllgor cyn gynted â phosib.

	Incwm / *Income*	BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2018—31.03.2019	BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2019—31.03.2020	BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2020—31.10.21	BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2021—31.03.22	BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2022—31.03.23
	Grant Mudiad Meithrin *Grant*			£ 3,758.60	£ -	£ -
	Grant Arian Plant 3 oed / *3yr old Education Funding Grant*	£ 6,081.18	£ 9,226.40	£ -		
	Grant Cynaladwyedd / *Sustainability Grant*			£ 2,108.96	£ 8,658.51	
	Grantiau Eraill / *Other Grants*			£ 1,994.02	£ 8,726.93	
	Incwm Hyfforddi ac Incwm Cynllun Cyfeirio / Training Income & Referral Scheme Income	£ 1,106.74	£ -	£ -		
	Ffioedd Plant / *Children's Fees*	£ 5,751.00	£ 4,191.21	£ 942.00	£ 22,032.52	
	Codi Arian / *Fundraising*	£ 1,812.90	£ 1,673.10	£ -	£ 2,278.04	
	Rhoddion ag Eraill / *Donations & Sundries*	-	£ 245.50	£ -	£ 461.54	
A	**A Cyfanswm Incwm / *Income Total***	**£ 14,751.82**	**£ 15,336.21**	**£ 8,803.58**	**£ 42,157.54**	**£ -**
	Gwariant / *Expenditure*	**BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2018—31.03.2019**	**BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2019—31.03.2020**	**BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2020—31.03.2021**	**BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2021—31.03.2022**	**BLWYDDYN / *YEAR* 01.04.2022—31.03.2023**
	Cyflogau a Costau TWE/ *Salaries and PAYE costs*	£ 13,274.05	£ 12,481.60	£ 5,058.59	£ 33,515.32	
	Costau Rhent, Gwres ayyb / *Rent & Heating Costs etc*	£ -	£ -	£ -		
	Ffioedd Cofrestru / *Registration Fees*	£ -	£ -	£ -		
	Offer, Nwyddau ag Adnoddau / *Equipment Materials & Resources*	£ 818.12	£ 704.87	£ 247.44	£ 6,215.61	
	Costau Bwyd a Diod / *Food & Drink Costs*	£ -	£ -	£ -		
	Codi Arian/Marchnata / *Fundraising/Marketing*	£ 64.51	£ 80.00	£ -		
	Eraill (e.e. hyfforddiant) / *Other (e.g. training)*	£ 658.00	£ 676.07	£ 399.79	£ 1,350.37	
B	**B Cyfanswm Gwariant /*Expenditure Total***	**£ 14,814.68**	**£ 13,942.54**	**£ 5,705.82**	**£ 41,081.30**	**£ -**
C	Gweddill (diffyg) am y flwyddyn = **A - B** Surplus (deficit) for the year **C**	-£ 62.86	£ -	£ 3,097.76	£ 1,076.24	£ -
CH	Arian a'r ddechrau'r flwyddyn (dylid cynnwys cyfanswm pob Cyfrif banc) / *Cash at year start (this should include the totals of all bank accounts* **CH**	£ -	£ 2,442.17	£ 3,835.84	£ 8,305.56	
	Arian ar ddiwedd y flwyddyn	£ -	£ 3,835.84	£ -	£ 9,381.80	
D	= C + CH *Cash at Year End* **D**	-£ 62.86	£ 2,442.17	£ 6,933.60	£ 9,381.80	£ -

CHARITY COMMISSION FOR ENGLAND AND WALES

Independent examiner's report on the accounts

Section A **Independent Examiner's Report**

Report to the trustees/ members of
Charity Name: CYLCH MEITHRIN NEFYN

On accounts for the year ended 31. MARCH. 2022 **Charity no (if any)** 1193899

Set out on pages (remember to include the page numbers of additional sheets)

I report to the trustees on my examination of the accounts of the above charity ("the Trust") for the year ended 31 / 03 / 2022.

Responsibilities and basis of report

As the charity trustees of the Trust, you are responsible for the preparation of the accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011 ("the Act").

I report in respect of my examination of the Trust's accounts carried out under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination, I have followed the applicable Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Act.

Independent examiner's statement

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention (other than that disclosed below *) in connection with the examination which gives me cause to believe that in, any material respect:

- accounting records were not kept in accordance with section 130 of the Act or
- the accounts do not accord with the accounting records

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

** Please delete the words in the brackets if they do not apply.*

Signed: Tomos W. Griffiths **Date:** 24.01.2023

Name: TOMOS. WILLIAM. GRIFFITH

Relevant professional qualification(s) or body (if any): ICAEW.

Address: HAROLD SMITH, UNIT 32, LLYS EDMUND PRYS, ST ASAPH BUSINESS PARK, ST ASAPH, DENBIGH, LL17 0JA.

Section B	Disclosure
	Only complete if the examiner needs to highlight matters of concern (see CC32, Independent examination of charity accounts: directions and guidance for examiners).
Give here brief details of any items that the examiner wishes to disclose.	- none.